


Gofal eich babi

Mesur safonau a gwella
gofal newyddenedigol



Canllaw i'r
Rhaglen Archwilio
Newyddenedigol Genedlaethol
Adroddiad Blynnyddol 2016



Derbyn babanod i unedau newyddenedigol

Bob blwyddyn, bydd angen gofal newyddenedigol arbenigol mewn ysbyty ar oddeutu **1 o bob 8** babi a gaiff ei eni yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (neu 95,000 o blith 750,000).

"Rydym yn gobeithio y bydd adroddiad blynyddol 2016 y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol ynghylch data 2015, a'r daflen gysylltiedig hon ar gyfer rhieni, sef "Gofal eich babi", yn helpu rhieni a chlinigwyr i gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer babanod y mae angen gofal newyddenedigol arnynt.

Drwy gydweithio â chlinigwyr i wella gofal gallwn ni, fel rhieni, helpu i wella pethau nid yn unig ar gyfer ein babanod ni ein hunain ond hefyd ar gyfer y babanod y bydd angen gofal newyddenedigol arnynt yn y dyfodol."

Ellen Hallsworth a Patrick Tully

Cynrychiolwyr rhieni ar fwrdd prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol



Gofal newyddenedigol

Bydd un o bob wyth babi a gaiff ei eni yn y DU yn treulio o leiaf ychydig ddiwrnodau yn yr ysbyty mewn uned newyddenedigol sy'n arbenigo ar ofalu am fabanod a gaiff eu geni cyn amser, nad ydynt yn pwyso digon neu sydd â chyflwr meddygol y mae angen triniaeth arbenigol ar ei gyfer.

Efallai y bydd angen i rai babanod gael cymorth i anadlu neu gael eu monitro, neu efallai y byddant yn dioddef o gyflyrau meddygol eraill. Mae'n bosibl y bydd gan fabanod eraill haint ac y bydd angen gwrthfotigau arnynt. Gall hyd y cyfnod y bydd babi'n gorfod aros yn yr uned amrywio o rai diwrnodau i rai wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion.

Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol?

Mae'n bwysig iawn bod safonau'r gofal a ddarperir gan unedau newyddenedigol yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn gwneud hynny drwy'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol.

Ers i'r Rhaglen gael ei sefydlu yn 2006, mae wedi monitro prosesau gofal newyddenedigol ac wedi adrodd yn eu cylch er mwyn helpu i sicrhau bod pob babi a gaiff ei dderbyn i unedau newyddenedigol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael y cyfle gorau i oroesi a gwireddu ei botensial llawn. Mae'r Rhaglen yn chwilio am feysydd lle gellir gwella'r gofal a gaiff babanod mewn unedau newyddenedigol, ac mae'n cyflwyno argymhellion ynghylch sut y gellid gwneud y gwelliannau hynny a phwy ddylai eu gwneud.

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen yn ymdrin ag unedau newyddenedigol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a rhagwelir y bydd unedau yng Ngogledd Iwerddon yn ymuno â'r ymarfer archwilio yn y dyfodol agos.

Caiff gwaith y Rhaglen ei oruchwylio gan aelodau o fwrdd prosiect, sy'n cynnwys staff prosiect y Rhaglen yn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd

Plant, clinigwr arweiniol sy'n feddyg ymgynghorol profiadol ym maes gofal newyddenedigol, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, a chynrychiolwyr o ystod o sefydliadau a mudiadau, gan gynnwys **Bliss** sy'n elusen yn y DU.

Bliss
for babies born
premature or sick



Beth y mae'r Rhaglen yn ei wneud ar eich rhan chi a'ch babi?

Mae'r Rhaglen yn monitro a yw'r gofal a ddarparwyd i fabanod a'u teuluoedd yn cyd-fynd â safonau y cytunwyd arnynt yn broffesiynol. Trwy ddisgrifio meysydd sy'n dda a'r meysydd a allai fod yn well mae'r Rhaglen yn helpu ysbytai, rhwydweithiau newyddenedigol a'r sawl sy'n cynllunio gofal iechyd i wella gofal newyddenedigol.

Rydym yn gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn eich helpu i ddeall rhai o'r safonau yr ydym yn eu defnyddio i fesur gofal newyddenedigol. Gallai hynny eich helpu i drafod agweddau ar ofal eich babi â staff yr uned newyddenedigol.



Pa agweddau ar ofal y mae'r Rhaglen yn canolbwyntio arnynt?

Bu Adroddiad Blynyddol 2016 y Rhaglen, ynghylch data 2015, yn ystyried deg maes gofal ("mesurau archwilio") ar gyfer babanod sâl a babanod a anwyd cyn amser.

Cafodd y deg maes eu dewis gan grŵp a oedd yn cynnwys rhieni ac arbenigwyr ym maes gofal newyddenedigol, oherwydd eu bod yn arbennig o bwysig i ddatblygiad a lles babanod a'u teuluoedd.



Dyma oedd y mesurau archwilio ar gyfer 2015:

- Steroidau cyn geni
- Tymheredd babanod adeg eu derbyn
- Ymgynghori â'r rhieni
- Cofnodi meithriniadau llif gwaed a hylif yr ymennydd
- Amllder heintiau llif gwaed sy'n gysylltiedig â'r llinell ganolog
- Trosglwyddiadau rhwng unedau newyddenedigol
- Dysplasia bronco-ysgyfeiniol
- Sgrinio ar gyfer retinopathi cynamseroldeb
- Llaeth y fam adeg ymadael â'r uned
- Archwiliad clinigol dilynol pan fydd y plentyn yn ddwy oed

Mae adroddiad 2016 yn ystyried data ynghylch sut y cafodd y deg maes gofal dan sylw eu darparu i 95,325 o fabanod a gafodd eu derbyn i 179 o unedau newyddenedigol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn ystod 2015.

Ar y tudalennau nesaf ceir mwy o fanylion am rai o'r mesurau hyn, gan gynnwys yr union gwestiynau y mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn eu gofyn, a'r rhesymau pam y mae'n eu gofyn.

Steroidau cyn geni

Cwestiwn: *A yw pob mam sy'n geni babi rhwng 24 a 34 wythnos o feichiogrwydd (gan gynnwys yr wythnosau hynny) yn cael unrhyw ddos o steroidau cyn geni?*

Weithiau bydd babanod a gaiff eu geni cyn pen llai na 34 wythnos o feichiogrwydd yn cael problemau anadlu yn ystod yr ychydig ddiwrnodau cyntaf ar ôl iddynt gael eu geni.

Pan fydd eich babi'n cael ei eni, bydd y meddygon a'r nyrsys yn gwybod bod angen iddynt gadw golwg am broblemau anadlu a byddant yn gwybod sut i'w trin yn briodol. Gall rhoi steroidau cyn geni i famau sydd ar fin geni babi cyn amser helpu i leihau'r problemau anadlu hyn, a gall hefyd leihau'r tebygolrwydd y bydd problemau difrifol eraill yn digwydd.

Nid yw'r steroidau'n cael effaith yn syth, ac weithiau bydd babanod yn cael eu geni cyn y gellir rhoi'r steroidau.

Byddai bwrdd prosiect y Rhaglen yn hoffi pe bai cynifer ag sy'n bosibl o famau'n cael steroidau cyn geni, os ydynt ar fin geni babi cyn pen llai na 34 wythnos o feichiogrwydd.

Ar gyfer 2016, mae'r Rhaglen hefyd wedi dechrau mesur faint o famau sy'n cael triniaeth magnesiwm, sy'n lleihau cymhlethdodau hirdymor ymhlith y babanod a gaiff eu geni gynharaf. Bydd adroddiadau'r dyfodol, gan ddechrau gydag adroddiad 2017 ynghylch data 2016, yn disgrifio pa mor aml y caiff triniaeth o'r fath ei rhoi.



85%
(2015)

Steroidau cyn geni

Yn 2015, cyn genedigaeth eu babi, cafodd **85%** o famau a roddodd enedigaeth i fabi a anwyd rhwng 24 a 34 wythnos o feichiogrwydd un dos neu ragor o steroidau cyn geni.

Tymheredd babanod adeg eu derbyn


Cwestiwn: *A gymerir tymheredd pob babi a gaiff ei eni cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd, cyn pen awr ar ôl iddo gael ei eni?*


Bydd babanod sy'n oerach pan gânt eu derbyn yn mynd yn fwy sâl, a bydd babanod a gaiff eu geni ymhell cyn amser (cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd) yn mynd yn oer yn hawdd iawn ar ôl iddynt gael eu geni. Mae'n bwysig tu hwnt bod meddygon a nyrsys yn mesur tymheredd babanod ac yn cymryd pob cam posibl i atal y babanod hyn rhag oeri.

Yn 2015, cafodd tymheredd 93% o fabanod a anwyd cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ei gofnodi cyn pen awr ar ôl iddynt gael eu geni. Mewn achosion lle cafodd tymheredd babanod ei gofnodi o fewn awr iddynt gael eu geni, roedd gan 62% o'r babanod dymheredd yn yr ystod a argymhellir, sef 36.5°C i 37.5°C.

Tymheredd babanod adeg eu derbyn

Yn 2015, o blith y 7,864 o fabanod a anwyd cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd, cafodd tymheredd 7,351 (neu **93%**) ei gofnodi o fewn awr iddynt gael eu geni.





Yn 2015 roedd gan **28%** o'r babanod a anwyd cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd, ac y cofnodwyd eu tymheredd o fewn awr iddynt gael eu geni, dymheredd a oedd yn **is** na'r ystod a argymhellir, sef 36.5°C i 37.5°C.



Ymgynghori â'r rhieni


Cwestiwn: *A oes uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol yn cynnal sesiwn ymgynghori a gofnodir â'r rhieni, cyn pen 24 awr ar ôl i'r babi gael ei dderbyn?*

Mae'r mesur gofal hwn yn berthnasol i rieni POB babi y mae angen gofal arno mewn uned newyddenedigol ac mae'n ystyried a oes uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol wedi siarad â'r rhieni yn ystod y 24 awr cyntaf ar ôl i'w babi gael ei dderbyn i'r uned.


Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall gofal eu babi a'u bod yn cael eu cynnwys ynddo. Dylai meddygon a nyrsys neilltuo amser i esbonio wrth deuluoedd sut y maent yn gofalu am eu babi a neilltuo amser i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y rhieni.

Ymgynghori â'r rhieni

Mewn **88%** o achosion, cafwyd sgwrs a gofnodwyd ag uwch-aelod* o'r tîm newyddenedigol cyn pen 24 awr ar ôl i'r babi gael ei dderbyn i'r uned.



*Mae'r Rhaglen o'r farn mai uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol yw meddyg ymgynghorol neu hyfforddai meddygol ail haen, neu ymarferydd nyrsio sy'n gweithredu mewn rôl o'r fath.



1 o bob 10

Mae hynny'n golygu nad yw rhieni efallai wedi cael esboniad amserol ynghylch salwch a thriniaeth eu babi mewn **1 o bob 10** achos.

Mae cynnwys y rhieni yng ngofal eu babi'n hollbwysig o safbwynt sicrhau'r canlyniadau hirdymor gorau; mae eu cynnwys yn ystod y 24 awr cyntaf yn elfen hanfodol o hynny. Felly, mae'n hollbwysig bod staff uned newyddenedigol yn neilltuo amser i esbonio wrth y rhieni sut y maent yn gofalu am eu babi a'u bod yn neilltuo amser hefyd i wrando ar rieni, ceisio deall sut y maent yn teimlo ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt.

Trosglwyddiadau rhwng unedau newyddenedigol

Cwestiwn: *A yw pob babi sy'n cael gwasanaethau newyddenedigol yn cael ei drin yn ei rwydwaith ei hun (oni bai bod rhesymau clinigol yn mynnu fel arall)?*

Yn y DU, caiff gofal newyddenedigol ei ddarparu gan unedau ar dair lefel wahanol (Uned Gofal Arbennig, Uned Newyddenedigol Leol ac Uned Gofal Dwys Newyddenedigol) sydd â lefelau gwahanol o sgiliau ac arbenigedd.

Caiff yr unedau newyddenedigol hyn eu grwpio gyda'i gilydd mewn ardal ddaearyddol, a elwir yn 'rhwydwaith'. Mae'r ysbytai ym mhob rhwydwaith yn ceisio cydweithio â'i gilydd i ddarparu gwasanaeth diogel o safon ar gyfer babanod y mae arnynt angen gofal newyddenedigol arbenigol.

Ceir adegau pan allai fod angen i fabi gael ei drosglwyddo i uned arall sy'n darparu lefel o ofal sy'n fwy priodol i'w anghenion ar y pryd. Yn 2015, cafodd 10% o fabanod eu trosglwyddo o leiaf unwaith yn ystod eu cyfnod mewn gofal newyddenedigol.

Weithiau, efallai na fydd modd gwneud hynny o fewn y rhwydwaith y mae rhieni'r babi yn byw ynddo, ac mae'n bosibl y bydd angen trosglwyddo'r babi i ysbyty sydd ymhellach i ffwrdd o'r cartref.




Dysplasia bronco-ysgyfeiniol

Cwestiwn: *Pa gyfran o fabanod a gaiff eu geni cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd sy'n cael dysplasia bronco-ysgyfeiniol?*

Pan gaiff babanod eu geni ymhell cyn amser, ni fydd eu hysgyfaint wedi datblygu'n llawn yn aml. Mae hynny'n golygu y bydd angen cymorth peiriant arnynt i anadlu.

Gall bod yn gysylltiedig â pheiriant anadlu am gyfnod achosi niwed i'r ysgyfaint, sy'n golygu bod babanod yn cael rhagor o drafferthion anadlu'n nes ymlaen a'u bod yn fwy tebygol o gael heintiau'r frest. Caiff cyflwr o'r fath ei alw'n dysplasia bronco-ysgyfeiniol. Fe'i gelwir weithiau'n glefyd cronig yr ysgyfaint hefyd.

Bydd angen i rai babanod gael ocsigen ychwanegol am gyfnod ar ôl iddynt fynd adref o'r ysbyty. Os bydd angen ocsigen o hyd ar fabanod 36 wythnos ar ôl iddynt gael eu cenedlu ac ar ôl iddynt gael eu geni ymhell cyn amser, gelwir y cyflwr hwnnw'n ddysplasia bronco-ysgyfeiniol arwyddocaol. Weithiau bydd dysplasia bronco-ysgyfeiniol yn achosi problemau tymor hwy, ond y newydd da yw y bydd ysgyfaint babanod yn dal i dyfu a datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn ac y bydd y rhan fwyaf o fabanod yn gwneud yn dda iawn.



Babanod yr effeithiodd dysplasia bronco-ysgyfeiniol arnynt

Rhwng 2013 a 2015, effeithiodd dysplasia bronco-ysgyfeiniol ar ychydig yn llai nag **un o bob tri** babi a anwyd cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ac a dderbyniwyd i uned newyddenedigol.

Cofnodi meithriniadau llif gwaed a hylif yr ymennydd

Cwestiwn: *Yng nghyswllt pa ganran o'r babanod a dderbyniwyd i uned newyddenedigol y cafodd meithriniadau llif gwaed a hylif yr ymennydd eu cofnodi?*

Gall bacteria sydd fel rheol yn byw ar groen ac yng ngholuddyn oedolion iach achosi heintiau difrifol mewn babanod sâl a babanod a gaiff eu geni'n gynamserol.

I chwilio am haint mewn babanod, bydd meddygon a nyrsys yn aml yn cymryd meithriniadau gwaed er mwyn gweld a oes bacteria'n bresennol yn

y gwaed. Yn ogystal, efallai y bydd meddygon weithiau am gymryd sampl fach o hylif yr ymennydd allan o asgwrn y cefn, yn lle sampl allan o lestr gwaed. Mae samplu hylif yr ymennydd yn hanfodol er mwyn diagnosio llid yr ymennydd yn gywir.

Yn 2015, ni welwyd unrhyw gynnydd o bwys yn nifer y meithriniadau gwaed a gofnodwyd o gymharu â 2014 (64,798 o blith 95,325 o fabanod yn 2015 o gymharu â 55,388 o blith 86,287 o fabanod yn 2014).



Heintiau llif gwaed sy'n gysylltiedig â'r llinell ganolog

Cwestiwn: *Faint o heintiau llif gwaed a geir mewn uned newyddenedigol am bob 1000 diwrnod o ofal â llinell ganolog?*

Bydd angen i lawer o fabanod gael tiwbiau plastig tenau, neu 'linellau canolog', sy'n mynd i mewn i'w gwythiennau er mwyn rhoi meddyginiaeth a maeth iddynt. Mae llawer o wahanol fathau o 'linellau canolog' i'w cael, ond yn gyffredinol maent i gyd yn gwneud yr un peth. Maent yn hanfodol i fabanod sâl a babanod a anwyd yn gymamserol, er mwyn iddynt gael y triniaethau hanfodol y mae eu hangen arnynt.

Fodd bynnag, mae'r llinellau hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd o haint gan eu bod yn cynnig mynedfa i haint drwy groen y babi.

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn monitro cyfraddau haint mewn unedau newyddenedigol er mwyn darparu gwybodaeth ac adborth pwysig i'r unedau hynny, a all eu helpu wrth iddynt ymdrechu i leihau haint.

Drwy adolygu'r canlyniadau ar gyfer 2015, mae'r Rhaglen wedi nodi bod yn rhaid i unedau newyddenedigol wella'r modd y maent yn cofnodi data ynghylch meithriniadau gwaed, fel bod modd nodi cyfraddau haint yn gywir a gweithredu ar eu sail.

Sgrinio ar gyfer retinopathi cynamseroldeb

Cwestiwn: *A yw pob babi a gaiff ei eni cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd, neu sy'n pwysu llai na 1501g adeg ei eni (beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd), yn cael ei sgrinio am y tro cyntaf ar gyfer retinopathi cynamseroldeb yn unol ag argymhellion y canllawiau cenedlaethol presennol?*

Yn sgîl blynyddoedd lawer o ofalu am fabanod a anwyd yn gymamserol, mae meddygon ac arbenigwyr wedi dysgu bod babanod a gaiff eu

geni cyn pen llai na 32 wythnos o feichiogrwydd, neu sy'n pwysu llai na 1501g adeg eu geni (beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd), mewn perygl o

gael cyflwr sy'n effeithio ar y llygaid, a elwir yn Retinopathi Cynamseroldeb. Mae'r cyflwr hwn yn golygu nad yw'r llestri gwaed yng nghefn y llygad yn datblygu'n normal, sy'n gallu arwain at golli golwg. Wrth chwilio am y cyflwr ymysg babanod sydd mewn perygl o'i gael, gall meddygon ac arbenigwyr fonitro'r babanod a thrin y cyflwr os oes angen.


Yr unig ffordd o ddarganfod pa fabanod sydd â Retinopathi Cynamseroldeb yw drwy sgrinio'r llygaid. Mae canllawiau cenedlaethol clir ar gael sy'n nodi pryd y dylid gwneud hynny, yn dibynnu ar hyd y beichiogrwydd a phwysau'r babi adeg ei eni.

Byddai bwrdd prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn hoffi pe bai pob babi sy'n ddigon iach i gael yr archwiliadau llygaid yn eu cael yn brydlon.

Yn adroddiad blynyddol eleni, mae bwrdd prosiect y Rhaglen yn argymhell y dylai rhieni gael gwybodaeth ysgrifenedig bersonol gan yr uned newyddenedigol, sy'n esbonio'r angen i sgrinio ar gyfer Retinopathi Cynamseroldeb ac sy'n rhoi'r dyddiad y rhagwelir y bydd llygaid eu babi'n cael eu sgrinio am y tro cyntaf.

Sgrinio ar gyfer Retinopathi Cynamseroldeb

Yn 2015, ni chafodd dros **un o bob 20** o fabanod eu sgrinio ar gyfer Retinopathi Cynamseroldeb yn unol â'r amserlen a argymhellir – nid yw'r ffigur wedi newid ers 2014.



Beth y gallwch chi ei wneud

Siaradwch â staff eich uned er mwyn darganfod a allai hyn fod yn berthnasol i chi a phryd y gallai fod yn bryd sgrinio llygaid eich babi. Os bydd eich babi wedi gadael yr uned cyn ei bod yn bryd sgrinio ei lygaid, gwnewch yn siŵr bod yr archwiliad sgrinio'n digwydd.

Llaeth y fam adeg ymadael â'r uned

Cwestiwn: *Pa gyfran o fabanod a anwyd cyn pen llai na 33 wythnos o feichiogrwydd sy'n cael rhywfaint o laeth eu mam pan fyddant yn ymadael ag uned newyddenedigol?*

Rydym yn gwybod bod cael llaeth y fron yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fabanod a anwyd yn gynamserol a'i fod yn helpu i atal haint. Er na fydd babanod sâl neu fabanod a anwyd yn gynamserol efallai'n barod i fwydo'n syth ar y fron, gall mamau ddarparu llaeth o hyd drwy ei wasgu o'u bron. Gall bwydo babi a anwyd yn gynamserol fod yn anodd a gall achosi llawer o straen, felly mae'n hanfodol bod staff yr uned yn rhoi cymorth ymarferol a chadarnhaol i'ch helpu i wasgu llaeth o'r fron ar gyfer eich babi

a sefydlu patrymau bwydo'n barod ar gyfer yr adeg y bydd eich babi'n mynd adref.

Oherwydd holl fanteision llaeth y fron, byddai bwrdd prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn hoffi pe bai cynifer ag sy'n bosibl o fabanod a anwyd ymhell cyn amser yn cael llaeth o fron eu mam (boed drwy gael eu bwydo'n uniongyrchol ar y fron neu drwy gael llaeth a wasgwyd o'r fron) ac yn cael llaeth y fron pan fyddant yn mynd adref o unedau newyddenedigol.

Llaeth y fam adeg ymadael â'r uned

Yn 2015, ar lefel y DU, roedd **60%** o fabanod cymwys yn cael eu bwydo'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar laeth eu mam pan oeddent yn gorffen cael gofal newyddenedigol.

Ar lefel rhwydweithiau newyddenedigol, roedd cyfraddau bwydo ar laeth y fron yn amrywio'n sylweddol o **43%** i **85%**.



Archwiliad clinigol dilynol pan fydd y plentyn yn ddwy oed

Cwestiwn: *Yn achos babanod a anwyd cyn pen llai na 30 wythnos o feichiogrwydd, a gafodd archwiliad clinigol dilynol ei gynnal pan oedd y plant yn ddwy oed?*

Mae'r mesur archwilio hwn yn ystyried a oes gan fabanod a anwyd dros ddeg wythnos cyn amser broblemau mawr yn ymwneud â symud a'r synhwyrâu, unrhyw oedi o ran datblygiad, neu broblemau iechyd eraill, 2 flynedd ar ôl y dyddiad yr oedd disgwyl iddynt gael eu geni.

Mae babanod a gaiff eu geni ymhell cyn amser yn cael problemau o'r fath yn amlach na babanod a anwyd ar ddiwedd beichiogrwydd arferol, ac mae'n bwysig bod y sawl sy'n ymwneud â gofalu am fabanod a anwyd yn gynamserol yn gwybod sut y mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Dylai datblygiad eich babi gael ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd gan ei weithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd. Bydd hynny'n helpu


i roi sicrwydd i chi bod eich babi'n gwneud yn dda, bydd yn golygu bod modd ymdrin ag unrhyw anawsterau'n gynnar a bydd hefyd yn gyfle i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod gennych.

Yn 2015, canfu'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol nad oedd unrhyw ddata ynghylch archwiliadau dilynol pan oedd plant yn 2 oed wedi'i gofnodi ar gyfer 40% o'r babanod a anwyd dros ddeg wythnos cyn amser, yn 2012 a 2013.

Mae hynny'n awgrymu naill ai nad yw unedau newyddenedigol yn cynnal y sesiynau ymgynghori dilynol pan fydd plant yn 2 oed neu'u bod yn cofnodi'r canfyddiadau yn rhywle arall heblaw'r system a ddefnyddir i gofnodi data ar gyfer y Rhaglen.

Beth y gallwch chi ei wneud

Cadwch mewn cysylltiad â'r uned newyddenedigol y bydd eich babi'n ei gadael. Bydd sicrhau eich bod yn mynychu pob apwyntiad dilynol yn golygu y bydd modd i chi gael sicrwydd ynghylch sut y mae eich babi'n datblygu, a chael unrhyw gymorth y gallai fod ei angen ar eich babi i ddatblygu yn y dyfodol.



Hoffech chi gael gwybod mwy?

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol a lawrlwytho copi o Adroddiad Blynyddol llawn 2016 y Rhaglen, gan gynnwys pob un o'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion, ar wefan y Rhaglen:

www.rcpch.ac.uk/nnap

Ar yr un wefan, fe welwch chi ddolen gyswllt ar gyfer 'NNAP Online' sy'n eich galluogi i weld a chymharu canlyniadau ymarfer archwilio'r Rhaglen ar draws rhwydweithiau ac unedau newyddenedigol.

Mae croeso i chi gysylltu â'r tîm prosiect os hoffech gael y newyddion diweddaraf am waith y Rhaglen neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch gwaith yr ymarfer archwilio:

nnap@rcpch.ac.uk

Hoffai'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ddiolch yn arbennig i'r sawl sy'n cynrychioli'r rhieni ar fwrdd prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol, am eu cyfraniadau a'u harweiniad wrth ddatblygu'r adroddiad hwn ac am eu caniatâd i ddefnyddio lluniau o'u babanod nhw ynddo.

Os hoffech drafod sut y mae unrhyw un o ganfyddiadau'r Rhaglen yn ymwneud â gofal eich babi, gofynnwch i nyrs eich babi neu siaradwch ag aelod o'r staff meddygol.

Bliss yw'r elusen yn y DU sy'n gweithio i sicrhau bod pob babi sy'n sâl neu sy'n cael ei eni'n gynamserol yn y DU yn cael y cyfle gorau i oroesi a mwynhau ansawdd bywyd da.

I gael rhagor o wybodaeth am Bliss, ewch i: **www.bliss.org.uk**

Rhieni, gofalwyr ac

& Us yw llwyfan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn helpu i wella iechyd plant a gofal iechyd i gleifion ifanc.

Ymunwch ag **& Us** a helpwch i wneud y GIG yn lle gwell:

www.rcpch.ac.uk/and_us

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr:

Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig i gyflwyno data am gleifion i'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol. Fodd bynnag, dylai rhieni wybod bod data am ofal newyddenedigol eu babi'n cael ei ddefnyddio, a bod modd iddynt optio allan o'r trefniant sy'n golygu bod data am eu babi'n cael ei gyflwyno i'r archwiliad. Caiff y data y mae'r Rhaglen yn ei gasglu a'i ddadansoddi ei amgryptio a'i storio'n ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth am sut i optio allan, cysylltwch â thîm y Rhaglen:

nnap@rcpch.ac.uk

Canllaw i'r
Rhaglen Archwilio
Newyddenedigol Genedlaethol
 Adroddiad Blynyddol 2016



Caiff y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol ei chomisiynu a'i noddi gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd yn rhan o'r Rhaglen Archwilio Glinigol Genedlaethol.

Caiff y Rhaglen ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, y GIG yn Lloegr a Llywodraeth yr Alban.



Royal College of
Paediatrics and Child Health
 Wales

Coleg Brenhinol
Pediatreg a Iechyd Plant
 Cymru

Leading the way in Children's Health

Royal College of
 Paediatrics and Child Health,
 5-11 Theobalds Road,
 London, WC1X 8SH